GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN

(GOSOD TERFYN CYFLYMDER O 50 M.Y.A.) 2025

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen), trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), 84(2) a 124, a pharagraff 27 o Atodlen 9, i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gosod Terfyn Cyflymder o 50 m.y.a.) 2025" a bydd yn dod i rym ar y XXX o XXX 2025.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

(a) Ystyr '**Atodlen Map**' yw'r casgliad o Deils Map a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn sy'n dangos, drwy gyfeirio at Eglurhad yr Atodlen Map, y darnau ffyrdd y mae'r terfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn berthnasol iddynt;

(b) Ystyr '**Cerbyd Esempt**' yw:

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn Adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; a/neu

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r Lluoedd Arbennig ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol neu at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

(c) Ystyr '**Cyfeirnod Teilsen**' yw'r cyfeirnod a roddir i bob Teilsen Map, gan ddechrau yn y pen uchaf ar y chwith a chynyddu'n rhifiadol ar draws y grid yn llorweddol ac yn nhrefn yr wyddor i lawr y grid yn fertigol;

(d) Ystyr '**Eglurhad yr Atodlen Map**' yw Eglurhad yr Atodlen Map a arnodwyd ar y Deilsen Map, sy'n nodi'r darnau ffyrdd y mae'r terfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn berthnasol iddynt;

(e) Ystyr '**Lluoedd Arbennig**' yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd, am y tro, yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y cyfarwyddwr hwnnw;

(f) Ystyr '**Map**' yw map sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin gyfan, sydd i'w ddarllen ar y cyd â'r Gorchymyn ac sy'n ffurfio rhan o'r Gorchymyn;

(g) Ystyr '**Teilsen Map**' yw petryal grid sy'n troshaenu'r Map, sy'n dynodi ardal yn Sir Gaerfyrddin lle mae gan bob teilsen Gyfeirnod Teilsen unigryw.

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio Cerbyd Esempt, yn gyflymach nag 50 m.y.a. ar hyd y darnau ffyrdd a ddangosir ar yr Atodlen Map a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

GWNAED o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar y XXXX o XXX Dwy Fil a Dau Ddeg Pump

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN)

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN)

ar y ddogfen hon)

ym mhresenoldeb:)

....

Steven P Murphy

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil

ATODLEN MAP

AA25	AA27	AA28	AB25	AB29
AC25	AC29	AC30	AD25	AD26
AE25	AE26	AF25	AF30	AF33
AG25	AG30	AH25	AH29	AH30
AH31	P11	P12	P13	Q12
Q13	Q14	Q15	Q16	R16
R17	S17	Z25		